

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel	Richard Thomas
Dyddiad: Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2025	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

09:15 – 09:30

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

09:30

2 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Diwylliant, iaith a threftadaeth – Panel 1

09:30 – 10:45

(Tudalennau 1 – 27)

Dafydd Rhys, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Eluned Haf, Pennaeth, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Andy Warnock, Cangenn Undeb y Cerddorion Cymru

Carwyn Donovan, Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr (BECTU)

Philip King, Other Voices

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau

Rhyngwladol Cymru

Egwyl

10:45 – 10:55



3 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – Diwylliant, iaith a threftadaeth – Panel 2

10:55 – 11:40

Jane Richardson, Prif Weithredwr, Amgueddfa Cymru

Egwyl

11:40 – 11:50

4 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – Diwylliant, iaith a threftadaeth – Panel 3

11:50 – 12:50

(Tudalennau 28 – 31)

Sian Lewis, Prif Weithredwr, Urdd

Micheál Ó Foighil, Prif Weithredwr, Coláiste Lurgan

Dogfennau atodol:

Tystiolaeth ysgrifenedig: Urdd

Egwyl

12:50 – 13:30

5 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Diwylliant, iaith a threftadaeth – Panel 4

13:30 – 14:15

Rhodri Llwyd Morgan, Prif Weithredwr, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dr Maredudd ap Huw, Pennaeth Is-Adran Archifau a Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

6 Papurau i'w nodi

14:15

6.1 Craffu ar Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

(Tudalennau 32 – 37)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 25 Medi – 5 Tachwedd 2025

Llythyr gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 25 Medi – 24 Tachwedd 2025

6.2 British Council

(Tudalennau 38 – 41)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ar y sefyllfa ariannol yn y Cyngor Prydeinig – 5 Tachwedd 2025 (Saesneg yn unig)

Llythyr gan yr Is-ysgrifennydd Seneddol yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ar y sefyllfa ariannol yn y Cyngor Prydeinig – 24 Tachwedd 2025 (Saesneg yn unig)

6.3 Craffu ar Gomisiynydd y Gymraeg

(Tudalennau 42 – 47)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 12 Tachwedd 2025 – 20 Tachwedd 2025

Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 12 Tachwedd 2025 – 25 Tachwedd 2025

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

14:15

8 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – Tafod y dystiolaeth

14:15 – 14:35

9 Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Trafod y camau nesaf

14:35 – 15:00

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Headline updates from WAI/ACW

- **Ireland Wales Shared Statement** We welcome the continued inclusion of Culture, Language and heritage in the new Shared Statement 2030, and also the ambition to have a “strong working relationships between the Irish and Welsh Arts Councils, and between Wales Arts International and Culture Ireland.” We will be meeting Culture Ireland in January to develop this.
- We are working with Culture Ireland again on the Celtic Cousins at Celtic Connections in January 2026 with an ambition of developing a collaboration with Ireland and Scotland around language and music in north America also in 2026 building on relations created with the International Indigenous Music Summit and through Music showcase events.
- **NEN -Northern European Network** – Arts Council of Wales is part of this group of Arts Councils of the UK, Ireland, Nordic and Baltic states who convene annually to share policy exchange and practice. The latest meeting was held in Dublin in January 2025
- **NEMO – Northern European Mobility Opportunity** – Arts Council of Wales has partnered with the Nordic Culture Fund and the Arts Councils of the UK and Ireland to run a pilot mobility scheme for emerging artists. [The successful applicants have been announced this month](#)
- CEO Dafydd Rhys and Head of WAI Eluned Haf were last week in Dublin at the meeting of Directors of UK and Irish Cultural Institutions to discuss the recently launched [UK-Ireland 2030 Cultural Co-operation Programme](#), which was announced at the UK-Ireland summit in March 2025.
- It has recently been announced in Ireland that the pilot **Basic Income for the Arts** scheme that runs from 2022-2025 [will be developed in to a permanent successor scheme in 2026](#).

Eitem 4

Urdd Gobaith Cymru – Cyflwyniad Tystiolaeth

Dilyniant i Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ac edrych i'r dyfodol gan gynnwys y datganiad ar y cyd 2030.

Rhagymadrodd

Mae Urdd Gobaith Cymru yn croesawu ffocws parhaus y Pwyllgor ar gryfhau perthnasau Cymru–Iwerddon. Fel prif sefydliad ieuenctid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, rydym wedi cyfrannu'n weithredol at fentrau y ddwy wlad ac yn gweld potensial sylweddol i ddyfnhau'r cydweithrediad drwy'r Datganiad ar y Cyd 2030.

Datganiad ar y cyd Iwerddon-Cymru 2030

Rydym yn croesawu'r Datganiad ar y Cyd 2030 ac yn gweld ynddo gyfle gwych i gryfhau'r ffocws ar ymgysylltiad ieuenctid. Mae cynnwys pobl ifanc yng Nghymru ac yn Iwerddon yn allweddol i adeiladu pontydd cydweithredol a chyfeillgarwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid oedd gan Urdd Gobaith Cymru mewnbwn uniongyrchol at ffurfio'r datganiad. Credwn y gall cydnabod cyfraniad mentrau megis partneriaeth yr Urdd a TG Lurgan, sy'n hybu defnydd y Gymraeg a'r Wyddeleg ac yn rhannu arferion da, ychwanegu gwerth i'r datganiad.

A. Ein Rhaglen Presennol Cymru–Iwerddon

Mae ein rhaglenni'n meithrin balchder yn yr etifeddiaeth ieithyddol ac yn creu cyfeillgarwch ystyrlon rhwng pobl ifanc (15-25oed) Cymreig a Gwyddelig, gan wreiddio dwyieithrwydd y tu hwnt i addysg ffurfiol.

Mae ein Cyfarwyddwr Rhyngwladol yn cymryd rhan yn gyson mewn cyfarfodydd ymgysylltu cymdeithas sifil rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gyfrannu safbwyntiau ar faterion ieuenctid, diwylliant a chydweithrediad ieithyddol. Mae'r presenoldeb hwn yn sicrhau bod llais pobl ifanc Cymru yn cael ei gynrychioli mewn trafodaethau strategol, ac yn creu cyfleoedd i gryfhau partneriaethau, rhannu arferion da, a datblygu prosiectau ar y cyd sy'n hybu'r Gymraeg a'r Wyddeleg.

1. Partneriaeth TG Lurgan

Ym mis Mawrth 2020, sefydlodd Urdd Gobaith Cymru bartneriaeth gyffrous gyda TG Lurgan, mudiad ieuenctid Gwyddelig sy'n hyrwyddo'r iaith Wyddeleg drwy gerddoriaeth gyfoes. Mae sianel YouTube TG Lurgan yn llawn cynrychiadau trawiadol sydd wedi denu miliynau o wylwyr, gan wneud yr iaith yn fwy deniadol i bobl ifanc.

O brofiad yr Urdd, mae'r prosiect hwn wedi:

- Datblygu balchder cenedlaethol a rhyngwladol a chodi statws ieithoedd lleiafrifol ymhlith pobl ifanc.
- Cynhyrchu fideos cerddoriaeth dwyieithog, sydd yn denu miliynau i'w wylio ar llwyfannau ffrydio
- Cyflwyno cyfnewidfeydd blynyddol, gan gynnwys dros 1,000 o bobl ifanc ar draws Cymru ac Iwerddon.
- Dod â siaradwyr ieithoedd lleiafrifol ynghyd o wahanol gymunedau.
- Sefydlu arfer gorau wrth greu a rhannu cynnwys digidol.
- Normaleiddio dwyieithrwydd mewn cyd-destunau cymdeithasol y tu hwnt i addysg ffurfiol.

Teithiau a chyfnewidfeydd Cymru–Iwerddon ers 2021

- Nifer y teithiau: 6, 4 Cymru i Iwerddon a 2 Iwerddon i Gymru
- Cyfanswm y cyfranogwyr: 1023 (163 o Gymru, 860 o Iwerddon)

Dyfyniadau gan gyfranogwyr:

“Ar ôl treulio’r rhan fwyaf o’r harddegau yn ystod y pandemig, roedd hwn yn brofiad anhygoel sy’n golygu cymaint mwy nag y gall geiriau egluro.”

“Dysgodd y daith hon fwy i mi am yr iaith Wyddeleg ac fe wnaeth gynyddu fy ngwerthfawrogiad o’r Gymraeg.”

“Fe wnaethom uno dros gerddoriaeth, sioeau cerdd, a hyd yn oed ddysgu Cymraeg ar gyfer cydweithrediad ar Water Under the Bridge - .”

Dolenni i gyd-gynyrchiadau’r Urdd a TG Lurgan (Cynhyrchiad 2025 i’w rhyddhau)

[Golau’n Dallu / Dallta ag na Solise](#) (Ionawr 2021)

[Gwenwyn / Nimhneach](#) (Ebrill 2021)

[Dŵr Dan Bont / Uisce Faoin Droichead](#) (Mehefin 2022)

[Gwalia / A Bhanba, O Gymru](#) (Ebrill 2023)

[Human](#) (Ebrill 2023)

[Heno’n Ifanc / Muid Fós Óg](#) (Awst 2023)

[Texas Hold ‘Em](#) (Awst 2024)

[Dog Days](#) (Awst 2024)

2. **Gŵyl Lleisiau Eraill – Aberteifi 2025**, prosiect diwylliannol sy’n cynnwys cyfnewid rhwng dau berfformiwr ifanc o Gymru a dau o Iwerddon, gan berfformio yng Nghymru ac Iwerddon. Yn rhan o’r prosiect daeth y 4 at ei gilydd er mwyn plethu cerddoriaeth traddodiadol Cymreig gyda cherddoriaeth traddodiadol Gwyddeleg. Yn ysgol Gwyl Lleisiau Eraill Aberteifi, perfformiodd y grwp mewn lleoliadau o amgylch y dref, gan gyflwyno cerddoriaeth Cymraeg a Gwyddeleg i gynulleidfa eang. Bydd y pedwarawd yn perfformio yn ystod Gwyl Lleisiau Eraill Dingle ddechrau Rhagfyr, ac yn ystod dathliadau Gwyl Ddewi yn Dulyn mis Mawrth 2026.

“Cael profiad arbennig yn cael gwybod am ddiwylliant newydd a chael dysgu am diwylliant gwahanol”

“Amazing opportunities i weld y Welsh music a’r llwyfan. Gweld y similarities between iaith Gymraeg a’r iaith Gwyddeleg. A’r tebygrwydd mewn cerddoriaeth.”

“Ffordd o adeiladu a chreu pontydd rhwng cerddorion Cymru ac Iwerddon.”

“Welsh musicians and Irish musicians can come together and listen to different music “

“Ffordd o bobl o Iwerddon a Chymru i rhannu cerddoriaeth”

3. **Cydweithio rhwng Theatr ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd a Crooked House Theatre Company / Kildare Youth Theatre Cymru. Ebrill ac Awst 2025.** Ym mis Ebrill 2025, mynychodd 5 person ifanc o Gymru, ynghyd â chyfoedion o Iwerddon, weithdy preswyl i drafod themâu hunaniaeth a dathlu ieithoedd lleiafrifol mewn ffordd greadigol. Ym mis

Awst, perfformiodd 10 o bobl ifanc o Gymru mewn gŵyl yn dathlu ieithoedd lleiafrifol, gan rannu gwaith a grëwyd ar y cyd â grŵp o Iwerddon. Mae trafodaethau ar y gweill i wahodd y grŵp o Iwerddon i Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai 2026 ac i'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2026 i gyd-berfformio.

4. **Rhannu arfer – Chwarae yn Gymraeg.** Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2023, yn ystod ymweliad i ysgol Gynradd Wyddeleg Galescoil Thaobh na Coille yn Ne Nulyn yng nghwmni Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg Cymru, cyflwynwyd pecyn cymorth yr Urdd sydd ar gael i ddefnyddio mewn ysgolion er mwyn annog defnydd o ieithoedd lleiafrifol ymhlith dysgwyr, plant a phobl ifanc. Dechreuodd y fenter hon yma yn Nulyn ac mae bellach yn rhan annatod o'n hymgylltiad rhyngwladol gyda phobl ifanc a ddefnyddiwn ym mhob un o'n prosiectau rhyngwladol.

B. Effaith hyd yma

1. Cydnabyddiaeth a Pharch Ryngwladol

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Urdd a TG Lurgan yn enghraifft o sut y gall prosiectau dan arweiniad ieuenctid ffynnu, esblygu a chyfrannu'n uniongyrchol at ddiplomyddiaeth ddiwylliannol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r fenter hon wedi creu cyfleoedd unigryw i bobl ifanc o Gymru ac Iwerddon gydweithio, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 1000 o gyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg a'r Wyddeleg. Trwy brosiectau creadigol, cyfnewidfeydd diwylliannol a chynrychiadau digidol, mae'r bartneriaeth wedi hybu statws ieithoedd lleiafrifol, cryfhau cysylltiadau rhyngwladol, ac ennill miliynau o wyliau ar lwyfannau ffrydio byd-eang. Mae hyn yn dangos sut y gall prosiectau ieuenctid fod yn gatalydd ar gyfer cydweithrediad rhyngwladol a hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol."

2. Buddion i bobl ifanc

Mae'r prosiectau hyn wedi darparu cyfleoedd r sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad personol, ieithyddol a chreadigol pobl ifanc. Yn benodol, maent wedi:

- **Cryfhau hyder ieithyddol drwy brofiadau ymarferol:** "Wnaeth y daith roi hwb i'm hyder i siarad Cymraeg a chael cyfeillgarwch gyda phobl newydd."
- **Ehangu gorwelion diwylliannol:** "Dysgais lawer am y Gymraeg a'r Wyddeleg – roedd hi'n agoriad llygad i weld pa mor angerddol yw'r ddwy wlad am eu hieithoedd."
- **Datblygu sgiliau creadigol a pherfformio:** "Roedd y cyngerdd terfynol yn uchafbwynt – perfformio ar lwyfan gyda grŵp rhyngwladol oedd yn brofiad bythgofiadwy."
- **Creu cysylltiadau rhyngwladol:** "Roedd cyfarfod â phobl eraill sy'n rhannu'r un angerdd dros eu hiaith leiafrifol yn swreal ac yn gysurus."]

Yn ehangach, mae'r prosiect wedi:

- **Cynyddu statws ieithoedd lleiafrifol** ymhlith pobl ifanc drwy brosiectau digidol a chyd-gynrychiadau cerddorol.
- **Sefydlu rhwydweithiau cydweithredol** sy'n cryfhau cysylltiadau diwylliannol maes pobl ifanc rhwng Cymru ac Iwerddon.
- **Darparu llwyfan ar gyfer arweinyddiaeth ieuenctid** mewn cyd-destun rhyngwladol, gan gyfrannu at nodau'r Datganiad ar y Cyd 2030

3. **Cyrhaeddiad digidol.** Mae cyd-gynyrchiadau'r Urdd a TG Lurgan wedi denu miliynau o wyliau ar YouTube a llwyfannau ffrydio byd-eang. Mae'r llwyddiant hwn nid yn unig yn dathlu'r cysylltiadau rhwng pobl ifanc yng Nghymru ac Iwerddon, ond hefyd yn amlygu pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol i gynulleidfa ryngwladol.
4. **Cyrhaeddiad Wasg.** Bu sylw cyfryngol sylweddol yng Nghymru ac yn Iwerddon ar prosiectau hyn. Yng Nghymru, darlledwyd deunydd ar BBC Radio Cymru, ynghyd â chynnwys golygyddol ar BBC Cymru Fyw, ac eitemau a chyfweliadau ar Heno. Yn Iwerddon, nodwyd amrywiaeth o sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau darlledu, gan gynnwys eitem deledu ar TG4, cyfweliadau ar Raidió na Gaeltachta, yn ogystal â sylw mewn print ac ar-lein gan sefydliadau megis RTÉ a'r *Irish Independent*.

C. Edrych ymlaen at 2030 – Argymhellion Allweddol

1. Cynnal ac Esblygu'r Bartneriaeth TG Lurgan

Parhau â chydweithrediad creadigol blynyddol sy'n hybu'r Gymraeg a'r Wyddeleg ymhlith pobl ifanc, gan adeiladu ar lwyddiant cynyrchiadau cerddorol a digidol sydd eisoes wedi denu miliynau o wyliau ar-lein. Yn ogystal, ehangu'r fenter i gynnwys ffurfiau celf newydd megis ffilm fer, theatr ryngwladol a chynnwys digidol ar lwyfannau byd eang, er mwyn cynyddu cyrhaeddiad a statws ieithoedd lleiafrifol.

2. Grymuso Pobl Ifanc yn ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol

Darparu llwyfannau ar gyfer arweinyddiaeth ieuenctid, gan sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o lunio polisiau a phrosiectau sy'n hyrwyddo cymdeithasu dwyieithog. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i arwain prosiectau creadigol, cyfrannu at drafodaethau strategol, a chreu rhwydweithiau rhyngwladol sy'n meithrin hyder ieithyddol a sgiliau arwain.

3. Datblygiad Proffesiynol a Rhannu Gwybodaeth

Hwyluso cyfnewidfeydd staff a rhaglenni hyfforddiant ar y cyd rhwng sefydliadau diwylliannol Cymreig a Gwyddelig, gan rannu arferion gorau mewn defnydd iaith tu allan i'r dosbarth, rheoli prosiectau creadigol, a datblygu strategaethau digidol. Bydd hyn yn cryfhau gallu sefydliadol ac yn sicrhau bod y ddwy wlad yn elwa ar arbenigedd ar y cyd.

4. Manteisio i'r eithaf ar Gydweithrediad Ieuenctid DU-UE

Defnyddio Erasmus+, TAITH a chynlluniau tebyg i ehangu gorwelion diwylliannol pobl ifanc drwy gyfnewidfeydd rhyngwladol, prosiectau celfyddydol ar y cyd, a gweithdai sy'n hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd ehangach, gan gryfhau statws Cymru fel partner gweithredol mewn cydweithrediad ieuenctid

I Gloi

Mae'r Urdd yn parhau'n ymrwymedig i weithio ar y cyd â mewn partneriaeth gyda TG Lurgan. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod wrth galon cydweithrediad diwylliannol ac ieithyddol, gan gryfhau pontydd rhwng y ddwy wlad, hybu statws ieithoedd lleiafrifol, a chreu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth ieuenctid mewn cyd-destun rhyngwladol. Trwy brosiectau creadigol, cyfnewidfeydd diwylliannol a rhwydweithiau strategol, byddwn yn adeiladu ar y llwyddiannau presennol i gefnogi Llywodraeth Cymru i wireddu'r weledigaeth sydd wedi ei osod Datganiad ar y Cyd 2030.

Christopher Catling, Prif Weithredwr

Hayley Roberts, Dirprwy Gadeirydd

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

5 Tachwedd 2025

Craffu blynyddol ar waith Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Annwyl Christopher a Hayley

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Medi 2025 fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Hoffem ddiolch ichi am roi o'ch amser, ac am y dystiolaeth a rannwyd gennych gyda'r Pwyllgor. Fel y gwnaethom sôn ystod y sesiwn, mae un neu ddau fater pellach yr oeddem am eu codi gyda chi, na chawsom amser i'w wneud yn ystod y sesiwn. Rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny isod.

Ystyriaethau o ran y gyllideb

Rydym yn ymwybodol iawn o effaith toriadau cyllideb hanesyddol Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn Brenhinol.

Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, mae cyllid cymorth grant refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn Brenhinol wedi gostwng tua 40 y cant rhwng 2015 a 2025. Fe egluroch chi nad yw Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Comisiwn Brenhinol yn ddigonol ar gyfer y gwaith y disgwyli'r iddo ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru:

"We have a set of key performance indicators that we report on every quarter and we're scrutinised by our sponsor division in Welsh Government on our performance in relation to those. And increasingly we're having to say in relation to some of the KPIs, 'We cannot deliver this because we don't have the capacity to do anything.'"

Fe egluroch chi, o ganlyniad i'r toriadau hyn, fod strwythur y Comisiwn Brenhinol wedi'i dorri 'hyd at yr asgwrn', ar hyn o bryd heb unrhyw gapasiti sbâr. Clywsom mai dim ond 21 aelod o staff sydd gyda chi, erbyn hyn, o'i gymharu â 54 aelod ddeng mlynedd yn ôl. Cawsom yr eglurhad canlynol gennych:



"What has helped us, however, to continue operating effectively is that we're not creating substantive jobs, permanent jobs, any longer, but we are taking on people on a short-term contract of nine months or a year in order to do specific tasks."

Dywedoch chi wrthym fod gweithgareddau penodol yn rhan o swyddi unigol o fewn y Comisiwn, ac os bydd yr aelod staff hwnnw'n gadael, bydd y gweithgaredd yn dod i ben. Rydym yn pryderu bod y toriadau hyn wedi gadael y Comisiwn Brenhinol yn annerbyniol o fregus. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn gwneud gwaith gwerthfawr ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys nifer o swyddogaethau statudol. Mae'n destun pryder inni bod y gostyngiad hirdymor hwn yng nghyllid y Comisiwn yn peryglu'r amgylchedd hanesyddol, a'n dealltwriaeth ohono.

Fe fyddwn ni'n codi'r materion hyn fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn yr wythnosau nesaf.

Adolygiad parhaus

Fe wnaethoch chi, hefyd, roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am statws adolygiad Llywodraeth Cymru o'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Fe ddwedoch chi, ar ôl naw mis o gyfarfodydd misol, nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto:

"The position is that we haven't made a decision yet. That's what the report that we've sent to the Minister says. It's finely balanced. He is now seeking advice from his officials."

Yn 2014, rhoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru'r gorau i gynlluniau i uno'r Comisiwn Brenhinol â Cadw. Fe wnaethoch chi ddisgrifio effeithiau cyfunol y gostyngiad yng nghyllid y Comisiwn Brenhinol a'r ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol y sefydliad, gan ddweud y canlynol:

"We've learnt to live with uncertainty. It's a fact of life for the royal commission, and it's partly where this discussion began. The gradual erosion of our income year on year means that we're constantly having to flex. It is disturbing for staff."

Rydym yn pryderu ynghylch effaith yr ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol y Comisiwn ar staff y Comisiwn a'i allu i gynllunio'n strategol. Ein cred ni yw bod angen i'r Llywodraeth ystyried y dystiolaeth a ddarperir iddi a chymryd camau pendant, gan ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, ym mha bynnag strwythur y bydd yn penderfynu arno. Nid yw'r sefyllfa bresennol o ohirio penderfyniadau wrth leihau cyllid termau real y Comisiwn yn gynaliadwy.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fynd ar drywydd y pwyntiau hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Diolch unwaith eto am ymddangos gerbron Pwyllgor ac am eich sylwadau gwerthfawr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Yn gywir,

Delyth Jewell

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Comiswn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and
Historical Monuments of Wales
Ffordd Penglais | Penglais Road
Aberystwyth SY23 3BU
+44 (0)1970 621 200

chc.cymru@cbhc.gov.uk
nmr.wales@rcahmw.gov.uk

19 Tachwedd 2025

Delyth Jewell AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau
Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | Correspondence welcomed in Welsh and English

Annwyl Delyth

Craffu'n Flynyddol ar Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd 2025. Ynddo, roeddech yn cynnig tynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at yr effeithiau y mae'r gostyngiadau blynyddol i'n cyllideb a'r ansicrwydd parhaus ynghylch ein dyfodol yn eu cael ar y Comisiwn Brenhinol, fel corff annibynnol neu wedi'i gyfuno â Cadw yn rhan o wasanaeth newydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'n galonogol iawn i'r Comisiynwyr a'r staff wybod bod y Pwyllgor mor gefnogol i'n gwaith ac i wybod bod gennym, yn y Senedd, eiriolwyr mor ddylanwadol dros ein gwaith.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn wir i ni ddweud bod gennym lawer o gefnogaeth ymhlith pobl Cymru, o weld pa mor boblogaidd yw ein digwyddiadau a'n negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ac o ystyried yr adborth hyfryd yr ydym yn ei gael gan y sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ymholiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r ffaith bod ein prosiect Capeli Cymru wedi cael grant mor sylweddol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd yn arwydd o barch pobl at y Comisiwn, ac edrychwn ymlaen at allu cyflawni prosiect rhagorol arall a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i dynged addoldai yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Un arwydd yn unig yw'r prosiect hwnnw o'r ffyrdd y mae'r Comisiwn wedi esblygu yn ystod y degawd diwethaf. Ein hunig waith ar un adeg oedd creu cofnodion o adeiladau ac archaeoleg, ond erbyn hyn rydym yn ceisio cysylltu ein gwaith â'r materion sy'n bwysig i bobl.

Er enghraifft, yn ystod yr haf, mewn ymateb i alw poblogaidd a gyda phwyslais parhaus ar les meddyliol a chorfforol, gwnaethom gyflwyno 15 o anerchiadau, 9 o deithiau tywysedig a 5 o weithdai a ddenodd dros 750 o gyfranogwyr. Roedd y rhaglen honno o ddigwyddiadau'n golygu cydweithio â phartneriaid a oedd yn cynnwys Cadw, Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, a'r prosiect Operation Nightingale sy'n cynorthwyo personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr sydd wedi'u hanafu ac sy'n gwella.

Yr unig beth yr ydym yn gofyn amdano yw'r gallu i barhau â'n gwaith, ac rydym yn credu ein bod yn cynnig gwerth da am arian. Mae cydweithwyr wedi ymateb gydag ewyllys da a hyblygrwydd clodwiw i'r galwadau ychwanegol a oedd arnynt, oherwydd y swyddi a gollwyd yn ystod y cyfnod diswyddo gwirfoddol yn dilyn y toriad o 10.5 y cant i'n cyllideb yn 2024-25. Ein cais rhesymol iawn yw cais i ddychwelyd i lefelau'r cyllid yr oeddem yn ei gael cyn y toriad dan sylw, ac rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth i gyrraedd y nod hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir

Cristi ap Iwan

Prif Weithredwr



The Rt Hon Yvette Cooper MP
Secretary of State for Foreign, Commonwealth and
Development Affairs

5 November 2025

British Council

Dear Secretary of State,

On behalf of the Senedd's Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee, I am writing to draw your attention to the enclosed letter, originally addressed to your predecessor, Sir David Lammy MP, in January 2025.

The financial challenges facing the British Council remain pressing, and the Committee continues to be concerned about the organisation's long-term sustainability. We urge you to consider how the British Council can be supported towards a financially secure future.

Yours sincerely,



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

cc. Chris Elmore MP



The Rt Hon David Lammy MP
Secretary of State for Foreign, Commonwealth
and Development Affairs

29 January 2025

Dear Secretary of State,

On behalf of the Senedd's Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee, I am writing to you regarding the key role the British Council plays for Wales and for the UK.

The work of the British Council has never been more important as we face global challenges and political changes in an ever more uncertain world. The British Council works on behalf of the UK and the four nations and is deeply appreciated by the Committee and those working on Wales's connections overseas.

The organisation champions our world-leading cultural and educational institutions, boosting the UK's international reputation. In these efforts, devolution is a huge asset to the UK and it is invaluable to have an organisation that can represent the diversity of interests and priorities of the four nations effectively.

The British Council's work is essential to the international ambitions of Wales and our sectors here. There has been strong support for Wales's International Strategy, where the British Council has worked in partnership with Welsh Government to raise the profile of Wales on the world stage. This has seen them support the delivery of projects and priorities for Wales in countries such as India, France and Japan. They have supported the internationalisation of key festivals such as Hay, Greenman, Focus Wales and Artes Mundi, contributing their expertise, funding and partnership opportunities.

Members of the Committee also worked with the British Council to welcome international arts delegations to Wales from Ukraine, Hong Kong and Iraq in the last year, enabling politicians, policy makers and practitioners in Wales to learn from global best practice.

In education, Welsh higher and further education organisations use the British Council's global network and expertise in 100 countries, offering a huge advantage and window on the world for



Wales. That brokering and connecting role that the British Council is able to play, and the insight they provide is invaluable for the Welsh tertiary sector.

The British Council's education programmes and policy events supports international research collaborations, transnational education partnerships, market development for Welsh universities and policy exchange around common interests from climate change, leadership and governance to semiconductor research.

The Study UK campaign, run by the British Council on behalf of the UK Government, works closely with Study in Wales to promote international student recruitment to Wales. A recent campaign achieved 11.4 million impressions, demonstrating what can be achieved in partnership. The British Council's work with schools, young people and languages too supports Wales's new curriculum and the international resources, partnership opportunities and policy work help create informed citizens of Wales and the world.

The Committee was therefore concerned to see reports about the financial challenges the organisation faces during the recent appearance of the British Council's Chief Executive in front of the Foreign Affairs Select Committee in Westminster, and in the press. Any decision which results in the British Council having to restrict or reduce its operations overseas and the ability it has to serve the priorities of the devolved Governments would not only negatively affect Wales's place in the world, but the soft power of the UK.

I would be grateful for your assurances, therefore, that the Foreign, Commonwealth and Development Office is doing everything in its power to ensure that strategy dictates the future of the British Council and to make sure the organisation is supported towards a financially sustainable future.

Yours sincerely,



Delyth Jewell MS
Committee Chair

cc: The Rt Hon Baroness Chapman of Darlington

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.





Foreign, Commonwealth
& Development Office

Chris Elmore MP

Parliamentary Under Secretary of State
King Charles Street
London
SW1A 2AH

Email:

fcdo.correspondence@fcdo.gov.uk

Delyth Jewell
Senedd Cymru Welsh Parliament
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Our Ref: MC2025/38412

24 November 2025

Dear Delyth,

Thank you for your correspondence of 5 November, addressed to the Foreign Secretary regarding the British Council. I am replying as the Minister responsible for the British Council.

The Government highly values the British Council as a UK soft power asset through its important work in promoting the English language, UK arts and culture and education.

I recognise the important work the British Council does in Wales, and I was encouraged to hear of the recent launch of a new residency programme in partnership with Arts Council England, Creative Scotland and Arts Council of Wales/Wales Arts International, which supports artists and cultural professionals whose work has been impacted by war and conflict. I look forward to hearing about the results of the programme in due course.

I want to assure you that this Government is committed to a successful British Council that is financially sustainable for the long term. Whilst FCDO funding represents a minority of the Council's income and the British Council's Board of Trustees is ultimately responsible for its financial sustainability, we continue to work closely with the British Council on the issues you raise in your letter.

Yours ever,

CHRIS ELMORE MP
Parliamentary Under Secretary of State

Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

20 Tachwedd 2025

Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg

Annwyl Efa,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2025 fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar Gomisiynydd y Gymraeg. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch ichi ac Osian Llywelyn, y Dirprwy Gomisiynydd, am roi ôch amser, ac am y dystiolaeth a rannwyd gennych gyda'r Pwyllgor. Fel y gwnaethom sôn ystod y sesiwn, mae un neu ddau fater pellach yr oeddem am eu codi gyda chi, na chawsom amser i'w codi yn ystod y sesiwn. Rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny isod.

Ystyriaethau o ran y gyllideb

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o effaith gostyngiadau mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn yng nghyllid refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer eich swyddfa a'r cyfyngiadau y gallai eu rhoi ar eich swyddogaethau a'ch gweithgareddau. Nododd y Pwyllgor oblygiadau'r wasgfa gyllido hon, yn benodol y toriad o 5 y cant i'ch cyllideb yn 2024-25.

Nododd y Pwyllgor eich asesiad o'r gofyniad i ailstrwythuro a newid rolau o ganlyniad uniongyrchol i ostyngiadau yn y gyllideb. Cawsom sicrwydd bod eich strwythur staffio yn eich galluogi i gyflawni eich swyddogaethau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod y swyddfa, ers ei sefydlu yn 2012, wedi gweld gostyngiad 26 y cant yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn.

Er bod y Pwyllgor yn croesawu symudiadau i ddod â mwy o sectorau o fewn cyfundrefn safonau'r Gymraeg, bydd hyn yn sicr o gynyddu llwyth gwaith eich swyddfa ac effeithio ar eich gallu i wneud pethau yn yr un ffordd. Bydd y Pwyllgor yn mynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Llywodraethu

Holodd y Pwyllgor chi am y camau a gymerwyd ers i'ch swyddfa ddioddef ymosodiad seiber ychydig flynyddoedd yn ôl. Rydym yn cydnabod y gwaith rydych chi wedi'i wneud ers hynny i sicrhau bod pob risg bosibl yn cael ei lliniaru a'i monitro'n weithredol.



Trafodwyd hefyd yr amserlenni a'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r system rheoli achosion newydd a'r angen i ddysgu gwersi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Roeddem yn falch o glywed na fyddai gofynion datblygu ychwanegol ar gyfer y system yn arwain at gostau ychwanegol a bod strwythurau cymorth a chynghor ar waith i gefnogi caffael systemau digidol a TG yn y dyfodol. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r system rheoli achosion newydd, ac amlinellu sut y bydd y system yn hwyluso proses fwy effeithiol ac effeithlon o ddelio â chwynion?

CEF Berwyn

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn eich diweddariad am yr adroddiad diweddar gan Brifysgol Caerdydd a ganfu bod carcharorion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hatal rhag defnyddio'r iaith yng ngharchar Berwyn.

Nodwn eich bod i fod i gyfarfod ag uwch swyddogion yn CEF Berwyn ar 17 Tachwedd a byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl y pwynt hwn. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed a allwch ddod i unrhyw gasgliadau pellach o'r cyfarfod ac a ydych yn debygol o gynnal ymchwiliad i CEF Berwyn. Byddai gennym hefyd ddiddordeb mewn gwybod pa sylwadau y byddwch yn eu gwneud i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch dod â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF o fewn fframwaith rheoleiddio safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eich ymdrechion i gynnwys adrannau a chyrff eraill Llywodraeth y DU fel y DVLA, CThEF, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa'r Cabinet o fewn cyfundrefn safonau'r Gymraeg. Dylai cyrff Llywodraeth y DU sy'n darparu gwasanaethau allweddol i bobl yng Nghymru fod yn eu darparu yn unol â deddfwriaeth Cymru, a dylent fod yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rheoleiddio a gorfodi

Gyda diddordeb clywsom am eich dull o reoleiddio a gorfodi'r safonau, a bod y newid i gyd-reoleiddio yn benderfyniad sy'n seiliedig ar egwyddor yn hytrach nag anghenion cyllidebol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod eich pwynt nad yw nifer y cwynion sy'n dod at y Comisiynydd o fewn eich rheolaeth, ac ar gyfer cyfran o'r cwynion hynny, nad oes tystiolaeth o fethiant, neu fod y mater wedi'i ddatrys, ac felly ni chymerir unrhyw gamau gorfodi.

Mae'r Pwyllgor yn gweld gwerth mewn cymryd camau ataliol i sicrhau nad yw sefydliadau'n methu yn y lle cyntaf. Nodwn eich adroddiad, sy'n datgan:

"Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n gymesur gan dargedu ein gwaith rheoleiddio a gweithredu ar nifer o fesurau penodol, gan gynnwys ein hasesiad o risg tebygol y sefydliad o fethu â chydymffurfio"

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i chi fel Comisiynydd ddefnyddio eich adnoddau cyfyngedig mewn ffordd gymesur a byddem yn derbyn na fyddai ymchwilio i gŵyn sydd wedi'i chywiro yn ffordd ddoeth o ddefnyddio adnoddau. Lle mae tystiolaeth o fethiant, fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig bod y Comisiynydd yn ymchwilio.

Diolch unwaith eto am eich presenoldeb yn y Pwyllgor ac am eich sylwadau gwerthfawr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

25 Tachwedd 2025

Annwyl Delyth Jewell AS

Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd y Gymraeg

Ar fy rhan i a'm Dirprwy, Osian Llywelyn, hoffwn ddiolch yn fawr am y cyfle i ddod i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2025. Dyma ymateb i'ch sylwadau.

Ystyriaethau o ran y gyllideb

Byddem yn croesawu mwy o adnoddau. Fodd bynnag, hyd yn oed petai adnoddau yn prinhaus, byddem yn parhau i groesawu dod â mwy o gyrff o dan safonau'r Gymraeg. Mae hynny oherwydd ein bod yn bendant o'r farn fod dod â mwy o gyrff a sectorau o dan Safonau'r Gymraeg o les i'r iaith Gymraeg. Byddai gwneud hynny heb adnodd ychwanegol yn rhoi pwysau ar adnoddau'r swyddfa, ac yn golygu y byddai'n rhaid i ni rheoleiddio fwy-fwy ar sail risg.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynyddu dros amser, a mae angen adnoddau digonol arnom er mwyn gwneud ein gwaith yn effeithiol. Rydym wedi nodi hyn yn ein [cynigion maniffesto](#) lle'r ydym yn gofyn i lywodraeth nesaf Cymru gyhoeddi rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion y Goron ac adrannau anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yn gofyn am raglen glir ar gyfer ymestyn safonau'r Gymraeg i sectorau a sefydliadau eraill.

Hyd yma wrth i adnoddau brinhau rydym wedi blaenoriaethu adnoddau i'n ffwythiannau rheoleiddio, er ein bod yn gweld bod ein gweithgareddau i gyfeiriadau eraill, gan gynnwys ein gwaith gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol hefyd yn dwyn ffrwyth o ran canlyniadau i'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio.

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygymraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.wales

Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Llywodraethu

Mae gennym berthynas waith gadarn gyda'r darparwr allanol sy'n darparu'r system rheoli achosion i ni, ac mae cynllun cyflawni wedi'i gytuno gyda nhw. Mae'r cynllun hwn yn nodi y bydd y gwaith datblygu llawn, ynghyd â hyfforddi staff perthnasol ar weithrediad y system, wedi'i gwblhau erbyn canol mis Mawrth 2026. Disgwylir felly i'r system fod yn weithredol o fis Ebrill 2026, gan ein galluogi i fanteisio ar holl fuddiannau'r system o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Mae'r prif fuddiannau disgwyliedig yn cynnwys yr isod:

- Awtomeiddio rhai tasgau gan olygu arbedion mewn amser staff.
- Lleihau baich tasgau dydd i ddydd ailadroddus a gweinyddol.
- Ein galluogi i gadw gwell cofnod o'n gwaith ac amserlenni y mae angen cadw atynt.
- Ein galluogi i fesur cynnydd yn haws yn erbyn ein dangosyddion perfformiad.
- Ein galluogi i fonitro ac adrodd yn well ar gyflawniad unrhyw gamau gorfodi a osodir ar sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio.

CEF Berwyn

Rwy'n cymryd y gwaith o fod yn lladmerydd ar ran siaradwyr Cymraeg o ddifrif, yn enwedig yng nghyswllt aelodau bregus cymdeithas. Yn dilyn ymweliad â Charchar y Berwyn ar 17 Tachwedd ble cefais y cyfle i drafod y ddarpariaeth â staff a charcharorion, rwyf wedi penderfynu cynnal ymchwiliad statudol dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i fethiant posibl gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF i gyflawni ei gynllun iaith Gymraeg.

Yn ogystal, yn ystod yr ymweliad a'r sgysiau gyda'r carcharorion, clywsom am enghreifftiau o unigolion yn cael eu rhwystro rhag siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn am sicrwydd bod carcharorion yn ymwybodol y gall unrhyw unigolyn sy'n teimlo bod eu rhyddid wedi'i gyfyngu gysylltu â'm swyddfa i ofyn am ymchwiliad.

Fel rwy'n ei nodi uchod mae ein [cynigion manifesto](#) yn gofyn i lywodraeth nesaf Cymru ddod â chyrff tebyg i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg.

Rheoleiddio a gorfodi

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y sylwadau adeiladol a'r cydnabyddiaeth o'n dull rheoleiddio. Pwysleisiwn unwaith eto fod y newid i gyd-reoleiddio fel dull yn un sy'n seiliedig ar egwyddorion, nid ar ystyriaethau cyllidebol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae gennym rôl ddeuol fel rheoleiddiwr: addysgu, cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth, ond hefyd gorfodi lle bo angen. Ein dymuniad yw gweithio gyda sefydliadau drwy ddull ataliol a chydweithredol, er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae angen camau gorfodi. Fodd bynnag, pan nad oes sicrwydd na hyder fod sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau, byddwn yn gweithredu'n gadarn gan ddefnyddio ein holl bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae angen i mi dynnu eich sylw at un mater sy'n ymwneud ag Yswiriant Gwladol. Noder mai mater cyllidebol 2025-26 yw cynnydd Yswiriant Gwladol (felly heb ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2024-2025). Ein disgwyliad yw derbyn 85% o'r cynnydd, nid 100% fel y nodais yn y cyfarfod.

Diolch am eich diddordeb yn ein gwaith, ac edrychaf ymlaen at barhau i drafod.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Copi: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg